Hysbysiadau Archwilio sy'n cael eu hychwanegugan Reoliadau

Ardystio a chymeradwyo cyfrifon blynyddol ar gyfer 2019-20

Mae rheoliad 15 (1) o Reoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog ariannol cyfrifol Cyngor Bro Llanllwni lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac ardystio ei fod [yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn gywir am y flwyddyn] neu [Mae'n cyflwyno'n deg sefyllfa ariannol Cyngor Bro Llanllwni ar ddiwedd y flwyddyn ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn]. Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 30 Mehefin 2020.

[Nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi llofnodi a thystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi a bydd y swyddog ariannol cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio'r datganiad o gyfrifon pan fydd pwysau uniongyrchol yr achos COVID-19 wedi tawelu.]

Mae rheoliad 15 (2) o Reoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn yr ardystiad gan y swyddog ariannol cyfrifol y cyfeirir ato uchod, fod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 30 Mehefin 2020.

[Oherwydd achos y COVIC-19, nid yw Cyngor Bro Llanllwni wedi cwrdd i gymeradwyo'r cyfrifon.

Cyhoeddi cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Mae rheoliad 15 (5) o Reoliadau Cyfrifon ac archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, erbyn 30 Medi 2020, i Gyngor Bro Llanllwni gyhoeddi ei ddatganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ynghyd ag unrhyw dystysgrif, barn neu adroddiad a gyhoeddwyd, a roddwyd neu a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Oherwydd effaith COVID-19, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn archwilio eto.